Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Monitro

Medi 2022

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE 2
3. Cysoni ac ymwahanu 4
4. Cysylltiadau rhynglywodraethol 4
5. Deddf Marchnad Fewnol y DU 5
6. Fframweithiau cyffredin 7
7. Deddfwriaeth 7
8. Comisiwn y Cyfansoddiad 9
9. Diwygio'r Senedd 9
10. Cyfiawnder 9

Atodiad: Geirfa 11

1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 22 Medi 2022.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae'r Pwyllgor wrthi'n eu trafod ar hyn o bryd.

Mae rhestr o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel Atodiad.

2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Mae adroddiadau'n awgrymu bod cynlluniau trawsbleidiol yn Nhŷ'r Arglwyddi i ddiwygio neu atal Bil Protocol Gogledd Iwerddon.

Yr awgrym yw bod tua 50 aelod yn trafod sut i ddiwygio neu atal y Bil yn seiliedig ar gyngor arbenigwyr cyfreithiol a chyfansoddiadol. Nid yw'r dyddiad ar gyfer ail ddarlleniad y Bil wedi ei gadarnhau eto.

Yn fuan, bydd yn rhaid i'r Senedd benderfynu p'un a fydd yn rhoi ei chydsyniad i Fil Protocol Gogledd Iwerddon ai peidio. Byddai'r Bil yn datgymhwyso rhannau o Brotocol Gogledd Iwerddon a'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig, yn grymuso Gweinidogion y DU i ddatgymhwyso rhagor o rannau yn y dyfodol ac yn rhoi trefniadau newydd ar waith heb gydsyniad na mewnbwn yr UE.

Gallai Gweinidogion y DU drosglwyddo eu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, a byddai'r Bil yn caniatáu i Weinidogion y DU bennu'r trefniadau craffu yn y Senedd. Mae Ymchwil Senedd Cymru wedi paratoi Papur briffio ac offeryn rhyngweithiol ar gyfer y Bil i'r Aelodau cyn iddynt ystyried Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o adnoddau hefyd ar gael.

Disgwylir Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru yn yr wythnosau nesaf. Bydd yn dilyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban, sy'n argymell na ddylai Senedd yr Alban roi ei chydsyniad oherwydd cyfraith ryngwladol. Yn ôl y Memorandwm, ni all argymell cydsynio i Fil sy'n mynd yn groes i gytundeb rhyngwladol sy'n gyfreithiol rwymol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU lai na dwy flynedd yn ôl, ac sy'n peri risg sylweddol o dorri cyfraith ryngwladol.

Mae'r DU wedi ymateb yn breifat, yn unol â'r terfyn amser, i weithdrefn yr UE ar gyfer achosion o dorri cyfraith yr UE, a gychwynnwyd yn dilyn cyflwyno'r Bil.

Nid yw'r ymateb wedi cael ei gyhoeddi, ond yn ôl adroddiad Bloomberg disgwyliwyd i Lywodraeth y DU nodi pam nad oes angen newidiadau gweithredol i'r Protocol.

Cyfarfu'r Prif Weinidog ag arweinwyr y byd yn y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y rhai sy'n annog y DU i beidio â bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth.

Mae'r erthygl hon gan y BBC yn rhoi crynodeb o'r cyfarfodydd â Joe Biden, Arlywydd yr Unol Daleithiau, Ursula von der Leyen, Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd ac Emmanuel Macron, Arlywydd Ffrainc.

Mae'r DU wedi lansio achos datrys anghydfod gyda'r UE yn sgil yr oedi parhaus o ran mynediad i raglenni gwyddonol yr UE, gan gynnwys Horizon Europe a Copernicus.

Yn ei rôl flaenorol fel Ysgrifennydd Tramor, cyhuddodd y Prif Weinidog yr UE o dorri'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r DU wedi gofyn am drafodaethau â'r UE.

Mae cyfarfodydd ynghylch y Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi parhau dros gyfnod yr haf, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol.

Yn y cyfarfodydd diweddaraf, trafodwyd pysgodfeydd a chydgysylltu nawdd cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar drafnidiaeth awyr a chyfranogiad y DU yn rhaglenni'r UE hefyd, ond nid yw'r manylion presenoldeb ar gael eto. Mae'r Cyngor Partneriaeth hefyd wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol ar y Fforwm Cymdeithas Sifil, dyddiedig Mai 2022.

3. Cysoni ac ymwahanu

Mae UK in a Changing Europe yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar achosion o ymwahanu rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.

Yn y pedwerydd rhifyn, dangosir y bu 30 achos o ymwahanu ers mis Mawrth 2022, gan gynnwys 20 achos o ymwahanu gweithredol, naw achos o ymwahanu goddefol ac un achos o ymwahanu gweithdrefnol. Mae hefyd gategori newydd, a ddisgrifir fel 'cydgyfeiriant gweithredol', sef pan fydd un ochr yn cymryd camau tuag at safonau rheoleiddio'r llall.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at achosion domestig o gysoni ac ymwahanu ymhlith gwledydd y DU. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae cynigion newydd yn debygol o arwain at drefniadau rheoleiddio amgylcheddol 'ysgafnach' yn Lloegr, tra bydd cynllun Taith Cymru yn golygu y bydd gan fyfyrwyr o Gymru lawer mwy o gyllid a dewis o ran astudio dramor na'u cyfoedion yn Lloegr. Yn olaf, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffordd y mae'r trefniadau yn yr Alban a Chymru yn gyson â rheolau'r UE ar blastig untro.

Mae rhagor o wybodaeth am achosion o gysoni ac ymwahanu ar gael yn erthygl Ymchwil y Senedd, Gwneud rheolau y tu allan i'r UE.

4. Cysylltiadau rhynglywodraethol

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer y grŵp rhyngweinidogol ar gyfer masnach.

Mae'r grŵp yn gyfrifol am:

- sefydlu, cynnal ac adolygu rôl y llywodraethau datganoledig yn agenda masnach ryngwladol y DU;
- datblygu prosesau cyfathrebu effeithiol rhwng gweinidogion ar fasnach ryngwladol a bod yn bwynt cyswllt ar gyfer trafod materion polisi cysylltiedig;
- cynnig ffordd o ddatrys anghydfodau ar faterion masnach ryngwladol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei hadroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer ail chwarter 2022.

5. Deddf Marchnad Fewnol y DU

Mae'r Goruchaf Lys wedi gwrthod cais Llywodraeth Cymru am ganiatâd i apelio yn erbyn Gorchymyn y Llys Apêl bod ei chais am Adolygiad Barnwrol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn rhy gynnar ac nad yw'n codi pwynt cyfreithiol y gellid dadlau yn ei gylch.

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol wedi derbyn cais Llywodraeth y DU i ystyried yr effaith bosibl ar Farchnad Fewnol y DU pe bai gwaharddiad ar werthu mawn yn Lloegr. Nod y Swyddfa yw darparu ei dadansoddiad erbyn mis Chwefror 2023. Dyma fydd yr adroddiad cyntaf a gaiff ei wneud o dan adran 34(1) o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

Eithriadau i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad: Gwasanaethau

Ysgrifennodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, at y Pwyllgor ym mis Awst 2022 i gadarnhau ei fod wedi rhoi ei gydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wneud Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Gwasanaethau) 2022.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r rhestr o waharddiadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn Atodlen 2 i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 mewn tair ffordd:

- Newid geiriad y gwaharddiadau presennol o ran gwasanaethau cymdeithasol i wneud y cwmpas yn gliriach;
- Ychwanegu gwaharddiadau newydd i Ran 1 (cydnabyddiaeth gilyddol) ar gyfer gwasanaethau nwy, trydan, cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, gwasanaethau'r sector gwastraff, gwasanaethau dyfarnu cymwysterau a gwasanaethau rhwydwaith gwres; a
- Dileu'r gwaharddiadau presennol ar gyfer gwasanaethau ariannol, gwasanaethau post, gwasanaethau cyfathrebu electronig, gwasanaethau asiantaethau gwaith dros dro, a gwasanaethau archwilydd statudol o'u priod gofnodion yn Rhan 1 (cydnabyddiaeth gilyddol) a Rhan 2 (peidio â gwahaniaethu).

Plastigau untro

Ar 20 Medi, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), sy'n cynnwys cynigion i wahardd nifer o eitemau plastig untro.

Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau hyn wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022 ac felly byddent wedi eu gwahardd o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiadau presennol yn gymwys i fagiau siopa untro nac unrhyw fath o gynnyrch plastig ocso-ddiraddadwy untro.

Serch hynny, nid yw datganiad ysgrifenedig y Gweinidog na memorandwm esboniadol y Bil yn sôn am Ddeddf Marchnad Fewnol y DU na'i pherthynas â chynigion y Bil. Yn ei ddatganiad am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil yn mynd drwy broses hwylus i gefnogi her gyfreithiol barhaus Llywodraeth Cymru i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'w hymgynghoriad ar leihau gwastraff plastig untro a gynhaliwyd yn 2020.

Cyflwynwyd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Mai 2022. Dim ond yn Lloegr y mae'r Bil yn berthnasol, ond bydd effeithiau Deddf Marchnad Fewnol y DU yn golygu ei fod yn effeithio ar ddeddfwriaeth Gymreig.

Cyflwynwyd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Mai 2022. Bydd y Bil yn eithrio rhai organebau a ddatblygwyd gan ddefnyddio'r hyn y mae'r Bil yn ei ddisgrifio fel 'technegau bridio manwl' o'r drefn reoleiddio bresennol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig (GMO) yn Lloegr, ac mae'n creu trefn newydd ar gyfer eu rheoli.

Er nad yw'r Bil yn diwygio'r gyfraith yng Nghymru o ran cynnyrch GMO, mae'r egwyddorion a geir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU o ran mynediad i'r farchnad yn golygu y bydd modd i unrhyw blanhigion, anifeiliaid, bwyd neu borthiant a gynhyrchir yn Lloegr o dan y drefn newydd gael ei werthu yng Nghymru heb orfod bodloni'r gofynion GMO sy'n parhau mewn grym yng Nghymru.

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil a'r Asesiad Effaith yn cydnabod yr effaith hon yn sgil Deddf Marchnad Fewnol y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai dim ond diwrnod o rybudd a gafodd i drafod goblygiadau'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno, ac mae wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynglŷn â'r darpariaethau ynddo. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ysgrifennu llythyr at Lywodraeth y DU yn mynegi ei phryderon.

6. Fframweithiau cyffredin

Nid oes unrhyw ddarpar fframweithiau cyffredin eraill wedi eu cyhoeddi ar gyfer gwaith craffu ers etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mai.

Mae papurau briffio ar ddarpar fframweithiau cyffredin a drafodwyd gan bwyllgorau'r Senedd ar gael ar wefan Ymchwil y Senedd.

7. Deddfwriaeth

Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

Mae tri Bil yn y cyfnod cychwynnol ar hyn o bryd, a dau sydd wedi cwblhau pob cyfnod:

- Cyflwynwyd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 7 Mehefin, ac mae'n mynd drwy waith craffu Cyfnod 1 ar hyn o bryd.
- Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar 4 Gorffennaf, ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r cyfnod ystyriaeth gychwynnol.
- Cyflwynwyd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ar 20 Medi, ac mae'n dechrau'r broses graffu.
- Cwblhaodd Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) drafodion Cyfnod 4 ar 12 Gorffennaf 2022. Daeth cyfnod hysbysu pedair wythnos y Bil i ben ar 9 Awst. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 8 Medi.
- Cwblhaodd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafodion Cyfnod 4 ar 28 Mehefin. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 8 Medi.

Deddfwriaeth y DU

Daeth Liz Truss yn Brif Weinidog y DU ar 6 Medi 2022, a phenodwyd Llywodraeth newydd ar gyfer y DU.

Ar ôl i Lywodraeth flaenorol y DU nodi ei rhaglen ddeddfwriaethol newydd ym mis Mai 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn disgwyl y byddai 12 maes polisi a allai gynnwys deddfwriaeth a oedd yn arbennig o berthnasol i fuddiannau datganoledig. O'r 12 maes hwn, mae wyth Bil bellach gerbron Senedd y DU. Mae sawl darn o ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ato yn natganiad y Cwnsler Cyffredinol sydd heb ei gyflwyno eto, gan gynnwys:

- Bil Rhyddid yn sgil Brexit newydd a fyddai'n ei gwneud yn haws i Lywodraeth y DU newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir.
- Bil a fydd yn diwygio gofal iechyd meddwl (cyhoeddwyd Bil drafft ar 27 Mehefin); a
- Bil Trafnidiaeth a fydd yn rhoi pwerau statudol i'r corff cyhoeddus newydd, Great British Railways (GBR), i gymryd lle Network Rail.

Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau deddfwriaethol hyn yn newid o dan Lywodraeth newydd y DU.

Mae rhai wedi awgrymu y bydd Llywodraeth newydd y DU yn cael gwared ar y Bil Hawliau, sydd wedi dechrau'r broses o fynd drwy Senedd y DU. Byddai'r Bil hwn yn diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod ganddi 'bryderon sylweddol' am y Bil, a'i bod yn parhau i wrthwynebu unrhyw gynnig i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb eto.

Cydsyniad deddfwriaethol

Mae memoranda cydsyniad deddfwriaethol bellach wedi'u gosod ar gyfer pum Bil newydd yn y DU ers Araith y Frenhines ym mis Mai.

O ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU a gafodd eu trosglwyddo o sesiwn Senedd flaenorol y DU, nid oes pleidlais wedi'i chynnal ar ddau ohonynt yn y Cyfarfod Llawn. Mae nifer o femoranda atodol wedi cael eu gosod hefyd.

Disgwylir memoranda atodol cymhleth ar gyfer y Bil Caffael, lle ceisir caniatâd am 103 o gymalau. Mae dros 300 o welliannau wedi eu cyflwyno eisoes yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac fe ddisgwylir rhagor.

8. Comisiwn y Cyfansoddiad

Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru adroddiad cynnydd ar 15 Gorffennaf 2022.

Mae'r Comisiwn wedi clywed tystiolaeth gan nifer o unigolion a grwpiau, ac mae wedi cynnal gweithdy technegol ar sefyllfa gyllidol Cymru.

Lansiodd y Comisiwn Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn sicrhau bod barn cymunedau amrywiol Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad interim y Comisiwn, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2022. Mae'r Comisiwn yn cynnig grantiau o hyd at £5,000 i bob sefydliad cymwys ymgymryd â gwaith ymgysylltu rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2022.

Cafwyd dros 1800 o ymatebion i'r arolwg Dweud Eich Dweud a defnyddir y safbwyntiau a ddaeth i law cyn diwedd mis Gorffennaf 2022 i lywio adroddiad interim y Comisiwn.

9. Diwygio'r Senedd

Pleidleisiodd y Senedd i gymeradwyo cynigion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ar 8 Mehefin 2022.

Mae argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig bellach gerbron Llywodraeth Cymru, a disgwylir Bil Drafft maes o law.

Mae rhagor o wybodaeth am gynigion y Pwyllgor ar gael yn erthygl a geirfa Ymchwil y Senedd.

10. Cyfiawnder

Llywodraeth y DU

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymateb dros dro i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol. Disgwylir ymateb llawn i'r adolygiad yn yr hydref.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud deddfwriaeth i gynyddu ffioedd bargyfreithiwr a ffioedd am waith cyfreithiwr mewn llysoedd ynadon a gorsafoedd heddlu 15 y cant erbyn diwedd mis Medi. Mae Cymdeithas y Bar Troseddol a Chymdeithas y Gyfraith wedi dadlau nad yw'r cynnydd yn ddigonol.

Dechreuodd aelodau o Gymdeithas y Bar Troseddol gyfnod amhenodol o weithredu diwydiannol ar 5 Medi.

Hefyd, ymatebodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ffurfiol i'w hymgynghoriad ar ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998. Roedd hyn yn dilyn cyflwyno'r Bil Hawliau i Senedd y DU (gweler Adran 7 ar Ddeddfwriaeth y DU).

Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig mewn ymateb i Fil Hawliau Llywodraeth y DU. Mae'r datganiad yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i gynigion a fydd yn disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i hanfodlonrwydd ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig o ran y Bil (gweler Adran 7 ar Ddeddfwriaeth y DU).

Atodiad: Geirfa

Fframwaith ar ôl Brexit: termau allweddol

Rhwymedigaethau rhyngwladol	Dyletswyddau ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU
Cytundebau masnach	Sefydlu trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a gwledydd eraill
Cytundebau rhyngwladol	Cytundebau rhwng y DU a gwledydd neu sefydliadau eraill
Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE	Sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE
Cytundeb Ymadael y DU a'r UE	Gosod telerau ymadawiad y DU o'r UE
Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon	Rhan o'r Cytundeb Ymadael i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon
Deddf yr UE (Ymadael) 2018	Trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn atal deddfau newydd yr UE rhag cael effaith awtomatig yn y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion gywiro'r llyfr statud ar ôl ymadael â'r UE
Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020	Gweithredu'r Cytundeb Ymadael
Deddf yr UE (y berthynas yn y dyfodol) 2020	Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu
Deddf Marchnad Fewnol 2020	Sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau ledled y DU
Fframweithiau Cyffredin	Sefydlu fframweithiau ledled y DU ar gyfer rhai meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE
Gweithredu rheoliadau	Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i weithredu'r trefniadau newydd
Cywiro rheoliadau	Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i sicrhau bod deddfau'r UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE yn ymarferol mewn cyd-destun domestig